**Tasglu'r Cymoedd**
**Papur sefyllfa TUC Cymru ar gyfer cyfarfod Medi 2016**

## Strategaeth Ddiwydiannol ar gyfer Gwaith Teg a Ffyniant

1. Amlygodd ymgyrch TUC Cymru 'Swyddi Gwell Yn Nes at Adref' y cysylltiad rhwng pryderon ynglŷn â'r rhagolygon am waith boddhaol, amddifadedd economaidd (yn enwedig yn y Cymoedd) a'r gefnogaeth i Brexit. Dangosodd ein canlyniadau nad oedd safbwyntiau negyddol am fewnfudo mor gryf â rhannau eraill o'r DU, ac yn llawer is yn y rhestr o faterion oedd yn poeni pobl.

2. Nid yw hyn o gwbl yn bychanu arwyddocâd gweithgareddau pobl hiliol a ddefnyddiodd y refferendwm, ac sy'n defnyddio Brexit, fel cyfrwng i'w casineb. Mae angen canolbwyntio ar gael gwared ar hiliaeth, ar wireddu cydlyniant cymunedol, a mynd i'r afael â throseddau casineb.

3. Serch hynny, mae darparu gwaith boddhaol ar gyfer yr ardaloedd sydd wedi'u 'gadael ar ôl' yn parhau'n gwbl hanfodol i ddyfodol cymdeithasol ac economaidd Cymru.

4. Mae angen datblygu strategaeth ddiwydiannol ysgrifenedig i Gymru ar frys, gyda chanlyniadau gwaith teg a chyfiawnder cymdeithasol penodol y gellir eu mesur. Mae blaenoriaethu adnoddau yn rhan ganolog o hyn, gan ganolbwyntio ar ardaloedd sydd o dan anfantais economaidd a chymdeithasol parhaol, er mwyn cefnogi undod cymdeithasol ar draws economi a chymdeithas Cymru.

5. Mae annog twf economaidd o ran mesurau GDP/GVA Cymru yn gyffredinol yn bwysig, ond ni fydd yn ddigon i fynd i'r afael â thlodi mewn ffordd ystyrlon. Mae hyn yn arbennig o wir os tybir y bydd ffyniant cynyddol yng nghanolfannau/dinasoedd economaidd rhanbarth yn lleihau tlodi yn yr ardaloedd difreintiedig yn awtomatig.

6. Mae angen i'r Llywodraeth ymyrryd yn strategol - ymyrraeth sydd wedi'i chynllunio i fynd i'r afael â methiant sylfaenol y farchnad mewn ardaloedd fel y Cymoedd. Mae annog y farchnad bresennol i ddatblygu'n

gynt ar hyd yr un llinellau, ond yn mynd i atgyfnerthu'r annhegwch economaidd presennol.

7. Bydd cynnal cymunedau mawr sydd o dan anfantais a thlodi wastad yn niweidio perfformiad economaidd Cymru yn gyffredinol. Oni bai bod ardaloedd fel y Cymoedd yn cael cymorth i ffynnu, ni fydd Cymru yn ei chyfanrwydd yn llwyddo - nac yn haeddu llwyddo chwaith.

8. Mae buddsoddi mewn sgiliau a seilwaith yn gwbl ganolog i ledaenu ffyniant. Serch hynny, mae angen eu gosod yn gadarn mewn cyd-destun ehangach o fesurau ymyrryd strategol sydd wedi'u cynllunio a'u cydlynu gyda chanlyniadau mesuradwy i bobl yn y cymunedau sy'n cael eu heffeithio fwyaf gan gyflogau isel, gwaith ansefydlog, diweithdra ac anfantais gymdeithasol ehangach. Mae'n rhaid gwasgu pob diferyn o werth swyddi gwell o bob buddsoddiad a phob rhaglen. Ni ddylai unrhyw beth gael ei weld fel gweithgaredd ar wahân.

9. Mae cefnogaeth ar gyfer sector gweithgynhyrchu cryf a sefydlog yn hanfodol i ddiogelu swyddi o ansawdd yng Nghymru o fewn sector mwy cynaliadwy a chynhyrchiol. Dylid cydnabod hyn fel blaenoriaeth unigryw, gan fod manteision gweithgynhyrchu yn cyrraedd nifer o'r amcanion cymdeithasol y mae Llywodraeth Cymru yn mynd ar eu trywydd.

10. Ysgogiad economaidd cyfyngedig sydd ar gael i Lywodraeth Cymru, felly, mae angen i ni gynnal cymaint â phosib o'r hyn sydd o fewn ein rheolaeth yn gyhoeddus, er enghraifft, drwy osgoi cael gwared ar waith cynnal a chadw rheilffyrdd y cymoedd fel consesiwn preifat neu roi gwasanaethau cyhoeddus i dendr.

11. Mae'n newyddion calonogol y bydd pencadlys Trafnidiaeth Cymru yn cael ei leoli yn y Cymoedd. Bydd angen prosiectau adleoli tebyg i fynd i'r afael â'r diffyg swyddi yn yr ardal, ac mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ddefnyddio ei holl ddylanwad i sicrhau bod cwmnïau yng Nghymru yn ystyried lleoliad yn y Cymoedd o ddifri. Collwyd cyfle sylweddol pan benderfynodd BBC Cymru, sy'n cael ei hariannu'n gyhoeddus, i symud ei

phencadlys o Landaf i ganol Caerdydd. Ni ddylid gadael i hynny ddigwydd eto.

12. Mae angen dybryd i ‘gynyddu’r gofyn’ ar gwmnïau sy’n ceisio am gymorth Llywodraeth Cymru naill ai drwy gyllid grant neu ffyrdd eraill o gefnogi prosiectau. Mae hynny'r un mor wir am gwmnïau sy’n gwneud elw drwy fasnachu yng Nghymru.

13. Nid oes unrhyw reswm pam na ddylem roi amodau ar gefnogaeth ddiwydiannol sy’n berthnasol i gyflogi gweithwyr o dan anfantais, hyfforddiant a buddiannau cymdeithasol eraill.

14. Dylid archwilio dulliau newydd, mwy arloesol, er enghraifft, y potensial i godi tâl cyfiawnder cymdeithasol cymunedol ar gyflogwyr mawr, y gellir ei hawlio’n ôl os yw’r busnes yn cyflogi gweithwyr lleol o dan anfantais ac yn canfod cyflenwyr lleol, neu yn ei wneud yn ofynnol i’r cwmnïau hyn ddatgelu’n gyhoeddus eu canlyniadau cyfiawnder cymdeithasol.

**Caffael**

15. Mae sicrhau’r gwerth cymdeithasol gorau o wariant cyhoeddus Cymru wedi bod yn flaenoriaeth polisi TUC Cymru ers tro. Mae buddiannau cymdeithasol a defnyddio Nodiadau Cyngor ar Gaffael i fynd i’r afael â chosbrestru yn enghreifftiau, fel y mae cadw cytundebau ar gyfer hybiau cyflogaeth mewn ardaloedd difreintiedig.

16. Mae bron i flwyddyn ers i Lywodraeth Cymru gytuno i fynd ar drywydd y ddau gynllun peilot arfaethedig i ddarparu hybiau cyflogaeth a hyfforddi yn y Cymoedd drwy gadw cytundebau’r llywodraeth a chydlynu holl ymyriadau’r farchnad lafur perthnasol.

17. Yr anhawster gyda gwireddu’r ymrwymiad hwn - hyd yn oed ar gyfer dau gynllun peilot gymharol ddisylw – yw ei fod yn dadlennu’r problemau sy’n wynebu’r llywodraeth gyfan oherwydd rhwystrau adrannol a blaenoriaethau dyddiol swyddogion yn cystadlu yn erbyn ei gilydd. Mae’n dangos bod angen uwch arweinydd gweithredol ar wahân i

gyflawni'r targedau penodol ac i gydlynu ar draws adrannau gwahanol. (gweler paragraff 30).

18. Daw eto haul ar fryn, ac mae cwmwl du Brexit wedi agor y potensial i gynyddu'r defnydd cymdeithasol o gaffael. Mae'n bwysig cydnabod a gweithredu ar yr hyblygrwydd newydd sydd gan Lywodraeth Cymru bellach i sicrhau bod polisi caffael cyhoeddus yn cael ei gyfeirio at ganlyniadau gwaith teg a chyfiawnder cymdeithasol.

19. Yn ogystal â darparu swyddi a hyfforddiant mewn ardaloedd o amddifadedd uchel, gall polisi caffael gyflawni amcanion gwaith boddhaol drwy gynnwys diogelu hawliau gweithwyr, gorfodi telerau ac amodau a fargeiniwyd ar y cyd ac ymestyn cydnabyddiaeth undebau llafur. Mae mwy o hyblygrwydd hefyd i ganolbwyntio a chyfeirio gwariant i gefnogi amcanion fel mynd i'r afael ag anfantais economaidd a chymdeithasol heb godi materion ynglŷn â chymorth y wladwriaeth.

20. Dylid cynnal adolygiad sylweddol o holl agweddau polisi caffael yn sgil yr amgylchiadau cyfnewidiol, a rôl hollbwysig caffael effeithiol wrth gefnogi economi Cymru drwy gyfnod anodd.

**Polisi Sgiliau a Chyflogadwyedd**

21. Bydd polisi sgiliau a chyflogadwyedd rhagweithiol sy'n derbyn adnoddau digonol, yn ganolog i unrhyw strategaeth effeithiol sy'n ceisio darparu swyddi gwell nes at adref.

22. Yn rhy aml o lawer, mae'r ddarpariaeth yn canolbwyntio ar gael digon o bobl i gymryd rhan yn y cwrs, yn hytrach na mynd i'r afael ar anghenion unigol y dysgwr. Gall y gweithiwr sydd o dan anfantais gael ei symud o un rhaglen i'r llall, gyda chyfnodau hir o aros yn y canol, weithiau heb unrhyw ddilyniant yn y gefnogaeth.

23. Ni ddylai polisi sgiliau a chyflogadwyedd fod yn gyfres o raglenni neu gyrsiau, ond yn hytrach, un sy'n addas i bob oed ac sy'n darparu cymorth unigryw di-dor i unigolion a llwybrau datblygu clir.

24. Mae datblygiad ‘o fewn y gwaith’ fel rhan o’r polisi sgiliau a chyflogadwyedd llawn mor bwysig. Mae gormod o weithwyr yn colli allan ar ddatblygiad personol, symud ymlaen mewn gyrfa, ac felly, y cyfle i gael swydd well. Mae diffyg dilyniant o swyddi lefel mynediad hefyd yn creu rhwystr pellach i’r di-waith a’r rhai sy’n cyrraedd y farchnad lafur.

25. Mae angen integreiddio’r rhaglen waith yn llawn i’r dull yma o weithredu. Byddai’n well i’r rhaglen waith gael ei datganoli, ond os nad oes modd gwneud hynny ar unwaith, mae’n hollbwysig bod Llywodraeth Cymru yn gallu gweithredu fel ‘asiant comisiynu’ y rhaglen waith er mwyn sicrhau y darperir un dull di-dor.

**Cronfeydd strwythurol yr UE**

26. Mae Cymru wedi elwa yn aruthrol o Gronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd. Er ein bod wedi mynegi rhai pryderon yn y gorffennol ynglŷn ag effaith ddaearyddol ddi-ffocws a chanlyniadau rhai prosiectau, mae datblygiadau seilwaith mawr a rhaglenni hyfforddi hynod o bositif, yn dibynnu ar y cronfeydd Ewropeaidd hyn. Mae’n hanfodol bod ymrwymiadau'r prosiectau cyfredol yn cael eu gwarantu, a bod y rownd bresennol o gronfeydd strwythurol yn cael eu cwblhau.

27. Ar gyfer cyfnod y rhaglen bresennol, mae’n rhaid i Gymru gael ei digolledu o gronfeydd y DU am bob ceiniog o gronfeydd yr UE sy’n cael ei golli drwy Brexit. Yn yr hir dymor, pan ymdrinnir â thanfuddsoddi cynhenid Barnett yng Nghymru, yng nghyd-destun setliad ariannol teg, mae’n rhaid i gyfnewid cronfeydd strwythurol fod yn elfen ychwanegol sydd heb ei ymgorffori i’r hyn oedd eisoes yn ddyledus i Gymru cyn Brexit.

28. Er bod nifer o brosiectau a gefnogir gan yr UE o bwysigrwydd mawr, mae’n rhaid pwysleisio bod prosiect Metro’r Cymoedd o bwysigrwydd unigryw a hanfodol i ardal fwyaf difreintiedig Cymru. Gall newid y gêm economaidd ac mae’n ganolog i ddatblygiad y Cymoedd fel canolfan fywiog yn ei rhinwedd ei hun. Mae’n rhaid i’r Metro gael ei flaenoriaethu, ei ddiogelu, ei ariannu’n llawn a’i integreiddio’n llawn i ymateb cenedlaethol Cymru i Brexit.

**Strwythurau darparu**

29. Dylai dull llywodraeth gyfan gael ei gefnogi gan strwythurau sy'n glir, yn syml ac sy'n canolbwyntio ar ddarparu canlyniadau polisi Cymru gyfan.

30. Dylai gweithredu strategaeth ddiwydiannol (yn enwedig o ran tasglu'r Cymoedd) oresgyn seilos adrannau'r llywodraeth gydag arweinydd gwasanaeth sifil penodol i wireddu canlyniadau gan dîm o adrannau gwahanol. Mae hyn yn gofyn am arweinyddiaeth weithredol ar lefel uwch sy'n ennyn awdurdod ar draws y llywodraeth, gyda'r dasg o roi blaenoriaeth i ddarparu canlyniadau mesuradwy ochr yn ochr â'r strategaeth. Mae'n bwysig nad yw hyn yn cael ei weld fel blaenoriaeth un adran yn unig, ac os oes angen, dylid ystyried secondiad tymor sefydlog o'r tu allan i'r gwasanaeth sifil.

31. Am wlad fach, mae gan Gymru nifer fawr iawn o gyrff sy'n effeithio ar ddatblygu economaidd. Mae'n cynnwys rhanbarthau dinesig, ardaloedd menter, partneriaethau dysgu a sgiliau, grwpiau sector, fforymau ymgynghorol, byrddau ymgynghorol, tasgluoedd, grwpiau gorchwyl a gorffen, grwpiau gorchwyl a byth yn gorffen, byrddau partneriaeth, fforymau busnes lleol, byrddau uchelgais, byrddau cyflogaeth a sgiliau. Yn anffodus, nid yw'r rhestr yn gyflawn. Mae'r dywediad *form follows function* erioed yn bellach wrth y gwir na'r maes pwyllgora economaidd yng Nghymru.

32. Mae'r strwythur *ad hoc* presennol yn annigonol ac anaddas - yn enwedig yng nghyd-destun y sialensiau a wynebwn yn sgil Brexit a'r problemau strwythurol dybryd sy'n wynebu'r Cymoedd. Mae diffyg eglurder, cylchoedd gorchwyl yn gorgyffwrdd, ehangu ymerodraethau lleol a phrosesau rhyfedd i benodi aelodau, i gyd yn gwanhau darparu unrhyw fath o strategaeth. Cyn bo hir, byddai'n tanseilio'r broses o ddarparu canlyniadau gwaith teg a chyfiawnder cymdeithasol go iawn y gellir eu mesur mewn polisi diwydiannol Cymru gyfan neu raglen newydd ar gyfer y Cymoedd.

33. Mae angen dybryd i ailwampio strwythurau Cymru gyfan a rhanbarthol gyda dulliau llywodraethu clir, cylchoedd gorchwyl a ffocws di-ildio ar

ddarparu canlyniadau penodol. Mae hyn yn arbennig o wir am dasglu'r Cymoedd os yw ei flaenoriaethau am gael effaith go iawn.